OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1510 (Cy.159)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2004

Wedi'i wneud	- -	*15 Mehefin 2004*
Yn dod i rym	- -	*1 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 50(2), 50(4), 81(2), 81(3) a 105(2), (3) a (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**), ac ar ôl iddo ymgynghori fel sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 50(5) o'r Ddeddf honno a chael ei fodloni bod y Gorchymyn hwn yn gyson â'r egwyddorion a bennir am y tro mewn gorchymyn o dan adran 49(2) o'r Ddeddf honno(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2004 a daw i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Gorchymyn 2001" ("*the 2001 Order*") yw Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001(**3**).

Diwygio Gorchymyn 2001

3. Ar ôl Erthygl 3 o Orchymyn 2001 mewnosoder —

"**Darpariaethau i'w datgymhwyso**

4.—(1) Os bydd awdurdod perthnasol, ac yntau'n sir, yn fwrdeistref sirol, yn gyngor cymuned neu'n awdurdod tân, wedi mabwysiadu cod ymddygiad neu os bydd cod o'r fath

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2276) (Cy.166)).
(**3**) O.S. 2001/2289 (Cy.177) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/163 (Cy.18)).